

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol sy'n gyfeillgar, gofalgar a chefnogol. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr ethos hyfryd sy'n bodoli. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac maent yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi canmoladwy. Un cryfder amlwg yw'r ffordd y mae'r staff yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan allweddol o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn siarad a chyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith, eu medrau mathemategol a'u medrau digidol. Er hyn, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd hyd eithaf eu gallu.



Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws llawer o'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae barn y disgybl yn rhan bwysig o'r broses gynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'w profiadau. Mae awyrgylch bositif yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar a phwrpasol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, mae tueddiad i ychydig o athrawon or-arwain y dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i gwblhau eu tasgau'n annibynnol. Yn ogystal, nid yw ychydig o athrawon yn sicrhau bod y tasgau a phrofiadau dysgu yn ddigon heriol i disgyblion bob amser.



Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles a medrau iaith Gymraeg y disgyblion. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae arweinwyr canol yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol ac mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ar draws yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu gwella. Mae hi'n cael ei chefnogi gan lywodraethwyr sy'n gefnogol i weledigaeth a gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw'r corff llywodraethol yn ymgymryd â rôl ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, nid ydynt yn cefnogi'r ysgol yn ddigon effeithiol wrth adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

# Argymhellion

**A1** **Mynd i’r afael â’r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad**

**A2** **Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu**

**A3** **Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

**A4** **Sicrhau bod aelodau o’r corff llywodraethol yn cymryd rhan lawn mewn prosesau hunanwerthuso er mwyn cefnogi’r ysgol i adnabod yr holl gryfderau a meysydd i’w gwella**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 257 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 206 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 21.3%) | 22.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 22.2%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 12.27% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 06/03/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/05/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 12/05/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.